

# Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Clinig Croen a Laser Beauty Advance,  
Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 10 Rhagfyr 2024

Dyddiad cyhoeddi: 12 Mawrth 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

ISBN Digidol 978-1-83715-435-7

© Hawlfraint y Goron 2025

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym .....	9
	• Ansawdd Profiad y Claf .....	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	16
4.	Y camau nesaf .....	18
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	19
	Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith.....	20
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	23

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Glinig Croen a Laser Beauty Advance, 6-8 Morgan Arcade, Caerdydd, CF10 1AF ar 10 Rhagfyr 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o bum holiadur. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Clinig Croen a Laser Beauty Advance yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion mewn amgylchedd glân a dymunol.

Gwelsom fod prosesau ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb. Roedd un aelod o staff a oedd yn siarad Cymraeg wedi'i gyflogi yn y clinig, er bod yr unigolyn ar absenoldeb mamolaeth pan gynhaliwyd yr arolygiad.

Roedd yr holl gofnodion cleifion a archwiliwyd gennym yn dangos y gofynnwyd am gydsyniad a bod prawf croen yn cael ei gynnal cyn dechrau triniaeth. Fodd bynnag, roedd un ymatebydd i holiadur AGIC yn anghytuno â hyn.

Gwelsom y gofynnwyd am adborth yn awtomatig ar ôl triniaeth drwy system trefnu apwyntiadau ar-lein y clinig, a gwelsom fod adolygiadau ar-lein yn cael eu monitro ac yr ymatebwyd iddynt mewn modd amserol.

Dywedodd pob un o'r unigolion a ymatebodd i holiadur AGIC fod y gwasanaeth naill ai'n dda neu'n dda iawn.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu'r canllaw i gleifion er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau
- Nodi yn y gofrestr triniaethau pa beiriant laser sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer pob triniaeth
- Rhoi polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith a sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar y pwnc.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Safle cyfforddus wedi'i addurno i safon uchel
- Proses ymgynghori wedi'i dogfennu'n llawn a'i chofnodi yn nodiadau'r cleifion
- Roedd adolygiadau ar-lein yn cael eu monitro'n weithredol ac roedd y clinig yn gwneud ymdrech i ymateb i bob un mewn modd amserol.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y clinig mewn cyflwr da ac yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu'r gwasanaethau a'r triniaethau y mae wedi'i gofrestru i'w darparu. Roedd pob ardal yn lân iawn ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Yn gyffredinol, roedd y trefniadau diogelwch tân yn dda ac roedd gwybodaeth gyfredol am Brofion Offer Cludadwy ar gael ynghyd â'r Adroddiad diweddaraf ar Gyflwr Gosodiadau Trydanol (EICR). Fodd bynnag, gwelsom fod angen hyfforddiant diogelwch tân ar sawl aelod o'r staff.

Disgrifiodd y staff drefniadau digonol i sicrhau bod y peiriannau laser yn cael eu defnyddio mewn ffordd briodol a diogel. Nodwyd gennym fod gwaith cynnal a chadw a chalibradu arferol wedi cael ei gwblhau ar y laserau. Fodd bynnag, nid oedd diweddariadau i reolau a phrotocolau meddygol lleol wedi cael eu cwblhau yn ôl y gofyn. Gwnaethom atal y defnydd o'r peiriannau laser dros dro o ganlyniad i hyn, a'r materion eraill lle roedd angen sicrwydd ar unwaith y cyfeirir atynt isod. Cafodd yr holl faterion hyn eu datrys gan y lleoliad o fewn yr amserlenni disgwylidig.

Roedd sbectol amddiffynnol briodol ar gael ac mewn cyflwr da. Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu storio'n briodol ac roedd mesurau diogelu addas ar waith.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Mae angen i'r rhan fwyaf o'r staff gwblhau hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion
- Roedd angen adolygiad blynyddol ar y rheolau lleol yn unol ag amodau'r cofrestriad
- Roedd angen i ymarferydd meddygol arbenigol adolygu'r protocolau meddygol
- Roedd angen adolygu asesiadau risg y laserau.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod yr allweddi i'r peiriannau laser yn cael eu cadw'n ddiogel bob amser pan na fydd y peiriannau yn cael eu defnyddio
- Rhoi gweithdrefn ar waith i sicrhau bod prosesau gwerthuso a gwella parhaus ar waith lle bo angen, fel y nodir yn y rheoliadau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y safle yn lân iawn ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda
- Roedd y cyfarpar mewn cyflwr da iawn
- Disgrifiwyd prosesau atal a rheoli heintiau da

- Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Busnes teuluol yw Clinig Croen a Laser Beauty Advance a chaiff ei redeg gan y rheolwr cofrestredig, rheolwr y clinig a thîm bach o staff.

Gwelsom amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau, a oedd wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, nid oedd rhifau fersiynau wedi'u nodi ac nid oedd unrhyw gofnod bod y staff wedi darllen a deall y cynnwys.

Roedd gweithdrefn gwyno ar waith a oedd yn cynnwys amserlenni addas ar gyfer cydnabod cwynion a'u datrys. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw gofnod o drywydd dogfennau mewn perthynas â chwynion roedd y clinig wedi'u cael.

Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod ffeiliau'r staff yn cael eu rheoli'n wael ac nad oedd gwiriadau addasrwydd i weithio priodol, megis geirdaon ar gyfer cyflogeion a gwiriadau o gofnodion troseddol, yn cael eu cwblhau yn ôl y gofyn.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Dylid trefnu bod pob aelod o'r staff yn cael tystysgrif cofnodion troseddol
- Dylid trefnu bod geirdaon ysgrifenedig yn cael eu darparu ar gyfer pob aelod o staff a gyflogir yn y clinig.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod pob polisi yn cynnwys hanes fersiynau a dyddiadau adolygu
- Sicrhau bod y staff yn darllen ac yn deall polisiau'r clinig, a chael llofnodion y staff er mwyn cadarnhau hyn
- Cadw cofnod llawn o bob cwyn, gan gynnwys manylion am ymchwiliadau a chanlyniadau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Adolygu a diweddarau'r holl bolisiau yn rheolaidd.



## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y clinig i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y clinig. Derbyniwyd cyfanswm o bum holiadur wedi'u cwblhau. Dywedodd pob un o'r unigolion a ymatebodd i holiadur AGIC fod y gwasanaeth naill ai'n dda neu'n dda iawn.

#### Urddas a pharch

Gwelsom fod gan Glinig Croen a Laser Beauty Advance dair ystafell ar gyfer triniaethau laser, yr oedd dwy ohonynt ar y llawr gwaelod ac un yn yr islawr. Roedd ardaloedd y cleifion yn ymddangos yn lân iawn, yn daclus ac yn drefnus iawn. Roedd gan yr ystafelloedd trin ddrysau y gellir eu cloi a oedd yn galluogi'r cleifion i newid mewn preifatrwydd. Roedd tywelion ar gael yn ôl y gofyn er mwyn diogelu urddas y cleifion.

Cawsom wybod y gallai hebryngwyr ddod i'r clinig ond nad oedd caniatâd iddynt fod yn yr ystafell yn ystod triniaethau.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r unigolion (4/5) a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch, bod mesurau yn cael eu rhoi ar waith i ddiogelu eu preifatrwydd a'u bod yn cael eu cynnwys gymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth. Nid atebodd yr ymatebydd arall y cwestiynau hyn.

#### Cyfathrebu'n effeithiol

Gwnaethom edrych ar y canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben a gawsom gan y rheolwr cofrestredig. Gwnaethom nodi nad oedd y canllaw i gleifion yn cynnwys crynodeb o adborth cleifion ac nad oedd yn cyfeirio at sut y gallai'r cleifion gael gafael ar adroddiad arolygu diweddaraf AGIC. Gwnaethom ganfod hefyd er bod cyfeiriad at wefan y clinig er mwyn gweld costau, ni allem ddod o hyd i unrhyw gostau clir ar gyfer triniaethau laser yno.

Rydym yn argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn adolygu'r canllaw i gleifion er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau.

Dywedwyd wrthym y caiff apwyntiadau eu trefnu ar-lein, dros y ffôn neu yn bersonol yn y dderbynfa.

Gwelsom mai dim ond yn Saesneg roedd gwybodaeth y clinig ar gael. Dywedwyd wrthym y gallai un clinigydd siarad Cymraeg ond ei bod ar absenoldeb mamolaeth pan gynhaliwyd ein harolygiad.

### **Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion**

Gwelsom y gofrestr o driniaethau laser fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Roedd y gofrestr yn cael ei chynnal ar y cyd â system trefnu apwyntiadau'r clinig.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar sampl o bum cofnod claf. Roedd nodiadau manwl am gleifion unigol ar gael, gan gynnwys cyfrif dosau, a gwelsom fod cydsyniad ar ffurf llofnod yn cael ei ddarparu ym mhob sesiwn driniaeth. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd y peiriant a ddefnyddiwyd yn cael ei gofnodi. Er y gellid canfod y wybodaeth hon ar hyn o bryd yn seiliedig ar y math o driniaeth a ddarparwyd, roeddem yn ymwybodol bod y clinig yn bwriadu cyflwyno peiriant laser newydd a allai ddarparu ar gyfer sawl opsiwn triniaeth.

**Rydym yn argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn nodi yn y gofrestr triniaethau pa beiriant laser sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer pob triniaeth. Fel arall, efallai y byddai'n well gan y rheolwr cofrestredig gadw cofrestrau ar wahân sy'n benodol i bob peiriant.**

Roedd yr holl gofnodion a welsom yn dangos bod y cleifion wedi cael prawf croen cyn dechrau cwrs o driniaeth er mwyn pennu tebygolrwydd unrhyw adweithiau niweidiol.

Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r unigolion (4/5) a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod wedi cael prawf croen ac wedi llofnodi cydsyniad cyn cael triniaeth. Fodd bynnag, roedd un ymatebydd yn anghytuno â'r ddau ddatganiad.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol:**

- sicrhau bod pob claf yn cael prawf croen er mwyn helpu i ddewis y paramedrau mwyaf effeithiol a nodi adweithiau andwyol posibl cyn dechrau cwrs o driniaeth
- sicrhau y ceir cydsyniad ysgrifenedig cyn pob sesiwn driniaeth.

### **Cynllunio a darparu gofal**

Gwelsom fod cleifion yn cael ymgynghoriad llawn cyn cytuno i unrhyw driniaethau a oedd yn cynnwys trafodaeth am risgiau a manteision y driniaeth. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod newidiadau mewn hanes meddygol wedi cael eu cofnodi a bod canllawiau ôl-ofal yn cael eu darparu. Cawsom sicrwydd bod y cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr eu bod wedi cael cyfarwyddiadau digonol ar ôl-ofal a chanllawiau clir ar yr hyn i'w wneud ac â phwy i gysylltu pe baent yn datblygu haint neu pe bai argyfwng. Roedd y rhan fwyaf o'r unigolion (4/5) a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall eu hopsiynau o ran triniaeth a bod y costau wedi cael eu nodi'n glir iddynt cyn cytuno i driniaeth. Fodd bynnag, roedd un ymatebydd yn anghytuno â'r ddau ddatganiad.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol:**

- sicrhau bod pob claf yn cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a risgiau a manteision yr opsiynau hynny
- sicrhau bod pob claf yn cael amlinelliad clir o'r costau cyn cael triniaeth.

**Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Roedd y drysau a'r ardaloedd i gleifion ar y llawr gwaelod yn ddigon llydan ar gyfer cadeiriau olwyn. Nid oedd y mynediad i'r islawr, gan gynnwys y toiled i gleifion, yn addas i gadeiriau olwyn. Gwelsom fod hyn wedi'i nodi yn y canllaw i gleifion.

Cawsom sicrwydd bod y clinig yn amgylchedd cynhwysol, p'un a oedd gan unigolyn unrhyw nodwedd warchoddedig ai peidio, ac roedd y staff a'r cleifion i gyd yn cael eu trin yn deg. Dywedwyd wrthym y byddai hawliau dynol cleifion trawsryweddol yn cael eu parchu fel mater o drefn, ac y byddai enwau a rhagenwau a ffefrir yn cael eu defnyddio yn ôl y gofyn. Fodd bynnag, nid oedd polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith, ac nid oedd y staff wedi cael unrhyw hyfforddiant ar y pwnc hwn.

**Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol:**

- Rhoi polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith
- Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Cadarnhaodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC nad oeddent wedi profi gwahaniaethu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth.

**Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth**

Dywedwyd wrthym y gofynnwyd am adborth gan gleifion ar ôl eu triniaeth drwy system trefnu apwyntiadau ar-lein y clinig. Casglwyd adborth hefyd drwy adolygiadau ar-lein neu wyneb yn wyneb yn y clinig. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd cyfleuster i gleifion roi adborth dienw yn bersonol. Gwnaethom drafod yr opsiwn o ddefnyddio blwch awgrymiadau fel ffordd o gael adborth dienw.

Nodwyd gennym fod adolygiadau ar-lein yn cael eu monitro'n weithredol a bod y clinig yn gwneud ymdrech i ymateb i bob un mewn modd amserol, ac ystyriwyd bod hyn yn arfer da.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Gwelsom fod y clinig i'w weld yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn fewnol. Gan mai uned mewn arcêd siopa yw'r clinig, ni allem archwilio ei strwythur allanol yn llawn. Roedd derbynfa ac ystafell aros gyfunol a oedd yn eang, yn gyfforddus, yn olau ac yn agored. Roedd yr ystafelloedd trin yn fodern ac yn cynnwys digon o gyfarpar.

Roedd polisi lechyd a Diogelwch, Llesiant a Hylendid ar waith. Gwelsom fod profion offer cludadwy (PAT) wedi cael eu cynnal yn ddiweddar a bod adroddiad cyfredol ar gyflwr gosodiadau trydanol (EICR) ar gyfer y safle, a gwblhawyd fel rhan o arolygiad bob pum mlynedd o'r system drydanol yn 2022. Roedd hyn yn rhoi sicrwydd ei bod yn ddiogel defnyddio dyfeisiau trydanol yn y clinig.

Gwnaethom edrych ar drefniadau diogelwch tân y clinig a gwelsom fod yr allanfeydd tân yn glir a bod arwyddion wedi'u gosod, ac roedd tystiolaeth o ymarferion tân rheolaidd hefyd. Roedd cyfarpar diffodd tân wedi cael ei wasanaethu ac roedd asesiad risg tân wedi cael ei gwblhau yn ystod y 12 mis diwethaf. Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom nad oedd sawl aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelwch tân diweddaraf. Gwnaethom godi'r mater hwn gyda'r rheolwr cofrestredig a drefnodd i'r staff a oedd yn weddill gwblhau'r hyfforddiant hwn. Cafodd copiâu o dystysgrifau wedi'u cwblhau eu darparu i AGIC yn fuan ar ôl yr arolygiad.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth ar adeg yr arolygiad. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y wasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Gwnaethom edrych ar y pecyn cymorth cyntaf a gwelsom fod yr holl eitemau cymorth cyntaf safonol yn gyfredol. Gwnaethom argymhell y dylid cael gwared ar becyn cymorth cyntaf ychwanegol yn y gegin a oedd wedi mynd heibio ei ddyddiad defnyddio er mwyn atal pobl rhag ei ddefnyddio ar ddamwain. Roedd dau swyddog cymorth cyntaf wedi'u penodi a gwelsom fod y rhain wedi cwblhau'r hyfforddiant cymorth cyntaf diweddaraf.

## Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod y clinig yn lân ac yn daclus yr olwg. Roedd y dodrefn, y cyfarpar a'r ffitiadau wedi'u gwneud o ddeunyddiau y gellir eu glanhau'n hawdd. Gwnaethom drafod y trefniadau rheoli heintiau â'r rheolwr cofrestredig ac roeddem o'r farn eu bod yn briodol i ddiogelu'r cleifion rhag haint.

Gwelsom fod polisi atal a rheoli heintiau ar waith a bod amserlenni glanhau yn cael eu defnyddio. Gwnaethom drafod yr opsiwn o ddefnyddio blaenlythrennau yn hytrach na thiciau ar yr amserlen. Gwelsom fod contract addas ar waith ar gyfer casglu a gwaredu gwastraff clinigol.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC fod y mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn a bod y lleoliad naill ai'n lân iawn neu'n eithaf glân.

### **Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion 16 oed a throsodd. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y cydymffurfiwyd â hyn ac esboniodd fod y clinig wedi penderfynu peidio â thrin unrhyw un dan 18 oed.

Gwelsom fod gan y clinig bolisi diogelu a oedd yn cyd-fynd â chanllawiau Diogelu Cymru Gyfan ac yn cynnwys manylion cyswllt y timau diogelu lleol.

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant a gwelsom dystiolaeth mai dim ond un aelod o'r staff oedd wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu plant. Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod hyfforddiant ar ddiogelu plant neu oedolion wedi cael ei gwblhau gan unrhyw aelod arall o'r staff.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Fel rhan o'r broses hon, gwnaethom ysgrifennu at y gwasanaeth ar unwaith yn dilyn yr arolygiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd camau unioni ar fyrder. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

### **Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol**

Gwelsom fod y peiriannau laser yr un fath â'r rhai a gofrestrwyd ag AGIC a bod y gwiriadau calibradu a gwasanaethu blynyddol yn gyfredol. Roedd peiriant laser ychwanegol wedi'i brynu'n ddiweddar ac mae'r gwasanaeth wrthi'n ei gofrestru ag AGIC.

Roedd contract cyfredol ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd y rheolau lleol sy'n nodi sut i weithredu'r peiriannau laser yn ddiogel wedi cael eu hadolygu'n flynyddol yn unol ag amodau'r cofrestriad. Gwelsom hefyd fod y protocolau meddygol, fel y'u cymeradwywyd gan ymarferydd meddygol arbenigol, wedi dod i ben ac nad oedd asesiadau risg y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar.

Ymdriniwyd â'n pryderon mewn perthynas â'r materion hyn o dan ein proses hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Fel rhan o'r broses hon, gwnaethom ysgrifennu at y gwasanaeth ar unwaith yn dilyn yr arolygiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd

camau unioni ar fyrder. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid ar gael i'r cleifion a'r gweithredwr laser. Gwelsom fod y rhain yn lân, mewn cyflwr da ac yn gyson â'r rheolau lleol.

Roedd arwyddion y tu allan i bob ystafell drin i ddangos bod peiriant laser yn yr ystafell ac roedd clo ar y drws. Roedd mynediad i'r ardaloedd trin yn cael ei reoli gan staff y dderbynfa a oedd yn atal mynediad heb awdurdod pan oedd y peiriannau'n cael eu defnyddio.

Gwelwyd tystiolaeth bod yr hyfforddiant craidd gwybodaeth diweddaraf a hyfforddiant penodol ar gyfer y ddyfais wedi cael eu cwblhau. Roedd trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod y peiriannau laser yn ddiogel pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio. Fodd bynnag, awgrymodd rheolwr y clinig nad oedd y trefniadau hyn yn cael eu dilyn bob amser, yn enwedig yn ystod cyfnodau prysur.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr allweddi i'r peiriannau laser yn cael eu cadw'n ddiogel bob amser pan na fydd y peiriannau yn cael eu defnyddio.**

### **Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**

Gwnaethom ofyn am dystiolaeth o weithgareddau gwella ansawdd a gynhaliwyd gan y clinig. Er i ni weld tystiolaeth o archwiliadau atal tân ac iechyd a diogelwch, ni welsom unrhyw dystiolaeth bod archwiliadau clinigol wedi cael eu cynnal mewn perthynas â phrosesau atal a rheoli heintiau a chofnodion cleifion. Byddai hyn yn helpu'r clinig i gydymffurfio â'r rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo asesu a monitro'r gwasanaeth er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd y safonau angenrheidiol.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi gweithdrefn ar waith i sicrhau bod prosesau gwerthuso a gwella parhaus ar waith lle bo angen, fel y nodir yn y rheoliadau.**

### **Rheoli cofnodion**

Gwelsom fod cofnodion y cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel yn y gwasanaeth, a bod trefniadau addas ar waith i leihau risgiau colli gwybodaeth bersonol sensitif.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig brosesau priodol ar gyfer gwaredu cofnodion, gan gynnwys cyfnodau cadw data. Roedd polisi dinistrio cofnodion a chyfrinachedd ar gael i helpu'r staff i gydymffurfio â'r mater hwn.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Busnes teuluol yw Clinig Croen a Laser Beauty Advance a chaiff ei redeg gan y rheolwr cofrestredig, rheolwr y clinig a thîm bach o staff.

Gwelsom fod tystysgrif cofrestru gyfredol gan AGIC ac atodlen gysylltiedig yn cynnwys amodau'r cofrestriad yn cael eu harddangos yn y clinig fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Gwelsom fod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar waith.

Gwelsom amrywiaeth o bolisiau a oedd wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y polisiau'n cynnwys hanes fersiynau na dyddiadau cyhoeddi ac adolygu. Gwelsom hefyd nad oedd y staff wedi'u llofnodi i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y dogfennau.

## Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- Bod pob polisi yn cynnwys hanes fersiynau, dyddiadau adolygu a'r person sy'n gyfrifol am adolygu'r weithdrefn
- Bod pob aelod o'r staff wedi darllen a deall y polisiau perthnasol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â phrosesau'r clinig.

## Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd polisi cwynion addas ar waith a oedd yn cynnwys amserlenni ar gyfer cydnabod a datrys y cwynion. Roedd y polisi yn nodi'r rheolwr cwynion ac yn cynnwys manylion cyswllt pellach pe byddai'r claf yn dymuno uwchgyfeirio unrhyw faterion. Roedd crynodeb o'r weithdrefn gwyno hefyd wedi'i gynnwys yn y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion.

Gwelsom fod cwynion yn cael eu cofnodi mewn cofnodlyfr cwynion. Fodd bynnag, ni welsom drywydd wedi'i ddogfennu ar gyfer pob cwyn, a ddylai gynnwys yr ohebiaeth ysgrifenedig rhwng y cleient a'r clinig, fel y'i disgrifir yn y weithdrefn. Ni allem gadarnhau felly a ymdriniwyd â chwynion o fewn yr amserlenni a nodir yng ngweithdrefnau'r clinig.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gadw cofnod llawn o bob cwyn, gan gynnwys manylion am ymchwiliadau, canlyniadau a'r holl ohebiaeth fel tystiolaeth.**

## Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Cawsom wybod bod tri gweithredwr ar gyfer y peiriannau laser yn y clinig ar hyn o bryd, a bod dau ohonynt ar absenoldeb mamolaeth. Dywedwyd wrthym fod dau aelod newydd o staff wrthi'n cael hyfforddiant i ddefnyddio'r peiriannau laser. Mae'n ofynnol bod pob gweithredwr laser wedi cwblhau hyfforddiant craidd



gwybodaeth yn llwyddiannus, yn ogystal â hyfforddiant sy'n benodol i'r cyfarpar laser sydd yn y clinig. Roedd y clinig yn gwybod bod yn rhaid i'r staff newydd gwblhau'r hyfforddiant hwn cyn y gellir caniatáu iddynt ddefnyddio'r peiriannau laser.

### **Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**

Gwnaethom edrych ar gofnodion y staff a gwelsom fod y rhain yn cael eu rheoli'n wael. Ni welsom unrhyw dystiolaeth o wiriadau recriwtio priodol, megis geirdaon gan gyflogwyr blaenorol na gwiriadau o gofnodion troseddol, y mae'n rhaid i bob aelod o'r staff eu cael cyn iddynt ddechrau gweithio.

Ymdriniwyd â'n pryderon mewn perthynas â'r materion hyn o dan ein proses hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Fel rhan o'r broses hon, gwnaethom ysgrifennu at y gwasanaeth ar unwaith yn dilyn yr arolygiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd camau unioni ar fyrder. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

At hynny, nid oedd proses ar waith i gadarnhau'n rheolaidd fod y staff yn parhau i fod yn addas i weithio yn y clinig. Gwelsom mai ym mis Mai 2017 y cafodd y gwiriad diweddaraf o gofnodion troseddol a gedwir ar ffeil ar gyfer y rheolwr cofrestredig ei gwblhau.

### **Rhaid i'r clinig sicrhau'r canlynol:**

- **Bod y contractau cyflogaeth yn cynnwys adran sy'n cyfeirio at y gofyniad i roi gwybod i'r rheolwyr os bu unrhyw newidiadau a fyddai'n effeithio ar eu statws cofnodion troseddol (h.y. euogfarnau neu rybuddiadau troseddol ac ati)**
- **Ei gwneud yn ofynnol i'r staff gwblhau a llofnodi datganiad blynyddol yn nodi na fu unrhyw newidiadau a fyddai'n effeithio ar eu statws cofnodion troseddol.**

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Gwnaethom nodi nad oedd sawl aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelwch tân.	Gallai'r staff a'r cleifion wynebu risg o niwed pe bai tân.	Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith gyda'r uwch-aelodau o staff.	Cwblhaodd y staff yr hyfforddiant perthnasol a darparwyd tystysgrifau i AGIC yn fuan ar ôl yr arolygiad.

# Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Clinig Croen a Laser Beauty Advance

Dyddiad yr arolygiad: 10 Rhagfyr 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu ar unwaith bod pob aelod o staff a gyflogir yn y clinig yn cael tystysgrif cofnodion troseddol a darparu copïau i AGIC pan fydd hyn wedi'i gwblhau.	Rheoliad 21(2) ac Atodlen 2, Paragraff 3,	Mae pob aelod o'r staff wedi cofrestru ar gyfer hyn. Mae rhai wedi cwblhau hyn ac mae eraill yn aros i wneud hynny.	India Evans	3 mis
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu ar unwaith bod geirdaon ysgrifenedig yn cael eu darparu ar gyfer pob aelod o staff a gyflogir yn y clinig.	Rheoliad 21 (2) ac Atodlen 2, Paragraff 4	Rydym wedi gofyn am y rhain ar gyfer staff newydd ac rydym yn aros am eu hymateb. Mae'r rhain ar gael ar gyfer pob aelod arall o'r staff ac mae angen i'r Brif Swyddfa eu hanfon ymlaen.	India Evans	Wedi'i gwblhau

<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu ar unwaith bod pob aelod o staff a gyflogir yn y clinig yn cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu oedolion a phlant a darparu copïau i AGIC pan fydd hyn wedi'i gwblhau.</p>	<p>Rheoliad 16(1)(a) ac 20(2)(a)</p>	<p>Mae cyrsiau hyfforddiant wedi cael eu trefnu ar gyfer pob cyflogai sy'n aros am dystysgrif diogelu oedolion neu blant.</p> <p>Bydd y staff sydd ar absenoldeb mamolaeth ar hyn o bryd yn cwblhau'r hyfforddiant cyn ailafael yn eu dyletswyddau.</p>	<p>India Evans</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gymryd camau ar unwaith i ddarparu'r rheolau lleol diweddaraf i AGIC ar gyfer pob peiriant laser a ddefnyddir yn y clinig ar hyn o bryd.</p> <p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi sicrwydd y caiff y rheolau lleol eu hadolygu bob blwyddyn yn unol ag amodau'r cofrestrriad ag AGIC.</p>	<p>Adran 24, Deddf Safonau Gofal 2000</p>	<p>Mae polisi ar waith i adolygu'r holl waith papur bob blwyddyn.</p> <p>Mae'r rheolau lleol diweddaraf yn cael eu darparu ar gyfer peiriant Soprano Titanium/ Harmony XL, gan fod y llall eisoes wedi'i ddarparu.</p>	<p>India Evans</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gymryd camau ar unwaith i ddarparu'r protocolau proffesiynol diweddaraf i AGIC ar gyfer pob peiriant laser a ddefnyddir yn y clinig ar hyn o bryd.</p>	<p>Rheoliad 45(1)</p>	<p>Rydym wedi gofyn am y protocolau diweddaraf gan ein cyflenwyr ac rydym yn aros am ymateb. Mae'r protocolau ar gyfer peiriant gwaredu blew Epidream eisoes wedi cael eu darparu.</p>	<p>India Evans</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gymryd camau ar unwaith i ddarparu'r asesiadau risg laser diweddaraf i AGIC ar gyfer pob peiriant laser a ddefnyddir yn y clinig ar hyn o bryd.

Rheoliad  
19(1)(b)

Mae'r asesiadau risg ar gyfer Soprano Titanium a Harmony XL wedi cael eu cwblhau a chânt eu hanfon.

India Evans

Wedi'i gwblhau

# Atodiad C - Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Clinig Croen a Laser Beauty Advance

**Dyddiad yr arolygiad:** 10 Rhagfyr 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rydym yn argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn adolygu'r canllaw i gleifion er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau.	Rheoliad 7	Adolygwyd	Daniela Evans	Wedi'i gwblhau
Rydym yn argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn nodi yn y gofrestr triniaethau pa beiriant laser sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer pob triniaeth. Fel arall, efallai y byddai'n well gan y rheolwr cofrestredig gadw cofrestrau ar wahân sy'n benodol i bob peiriant.	Rheoliad 45 (2)	Cytunwyd	Daniela Evans	Wedi'i gwblhau

<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• sicrhau bod pob claf yn cael prawf croen er mwyn helpu i ddewis y paramedrau mwyaf effeithiol a nodi adweithiau andwyol posibl cyn dechrau cwrs o driniaeth</li> <li>• sicrhau y ceir cydsyniad ysgrifenedig cyn pob sesiwn driniaeth.</li> </ul>	<p>Rheoliad 15(1)(a) a (b)</p> <p>Rheoliad 9(4)(b)</p>	<p>Diwygiwyd a chytunwyd</p>	<p>Daniela Evans ac India Evans</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• sicrhau bod pob claf yn cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a risgiau a manteision yr opsiynau hynny</li> <li>• sicrhau bod pob claf yn cael amlinelliad clir o'r costau cyn cael triniaeth.</li> </ul>	<p>Rheoliad 15(a)</p> <p>Rheoliad 7(1)(b)</p>	<p>Diwygiwyd a chytunwyd</p>	<p>Daniela Evans ac India Evans</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>



<p>Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoi polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith</li> <li>• Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth.</li> </ul>	Rheoliad 18	Cytunwyd	Daniela Evans ac India Evans	Wedi'i gwblhau
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr allweddi i'r peiriannau laser yn cael eu cadw'n ddiogel bob amser pan na fydd y peiriannau yn cael eu defnyddio.</p>	Rheoliad 15(3)	Proseswyd	Daniela Evans ac India Evans	Wedi'i gwblhau
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi gweithdrefn ar waith i sicrhau bod prosesau gwerthuso a gwella parhaus ar waith lle bo angen, fel y nodir yn y rheoliadau.</p>	Rheoliad 19	Cytunwyd	Daniela Evans ac India Evans	Wedi'i gwblhau
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:</p>	Rheoliad 9	Cytunwyd	Daniela Evans ac India Evans	Wedi'i gwblhau

<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bod pob polisi yn cynnwys hanes fersiynau, dyddiadau adolygu a'r person sy'n gyfrifol am adolygu'r weithdrefn</li> <li>• Bod pob aelod o'r staff wedi darllen a deall y polisiâu perthnasol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â phrosesau'r clinig.</li> </ul>				
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gadw cofnod llawn o bob cwyn, gan gynnwys manylion am ymchwiliadau, canlyniadau a'r holl ohebiaeth fel tystiolaeth.</p>	Rheoliad 24 (5)	lawn	Daniela Evans ac India Evans	Wedi'i gwblhau
<p>Rhaid i'r clinig sicrhau bod y gweithwyr yn parhau i fod yn addas i weithio yn y clinig:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylai'r contractau cyflogaeth gynnwys adran sy'n cyfeirio at y gofyniad i roi gwybod i'r rheolwyr os bu unrhyw newidiadau a fyddai'n</li> </ul>	Rheoliad 21	lawn	Daniela Evans ac India Evans	Wedi'i gwblhau

<p>effeithio ar eu statws cofnodion troseddol (h.y. euogfarnau neu rybuddiadau troseddol ac ati)</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'n ofynnol i'r staff gwblhau a llofnodi datganiad blynyddol yn nodi na fu unrhyw newidiadau a fyddai'n effeithio ar eu statws cofnodion troseddol.</li> </ul>				
--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau): Daniela Evans**

**Teitl swydd: Perchennog a Rheolwr**

**Dyddiad: 07/02/2025**